Am ddeunydd ychwanegol a syniadau am weithgareddau ar gyfer eich grŵp, ewch i wefan yr Undeb,

www.annibynwyr.org

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court,
Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe,
Abertawe.
SA7 0AJ

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cynllun

Blwyddyn 1, Rhan 1
Hydref-Tachwedd 2016

Trefnu Grŵp Trafod

Medi 2016

Canllawiau ar gyfer trefnu grŵp trafod

Bwriadwyd i ddeunydd 'Y Ffordd' fod yn hwylus ac yn hylaw. 'Does dim angen arbenigwyr na thyrfa fawr i'w fwynhau!

Serch hynny, mae paratoi a meddwl ychydig ymlaen llaw yn siŵr o helpu'r sesiynau i redeg yn esmwyth.

Dyma ambell ystyriaeth.

Arwain

- Fel trefnydd, gallwch arwain y sesiynau eich hun neu, os oes modd, gofynnwch i wahanol bobl arwain ambell sesiwn.
- Dylai'r arweinydd wylio'r ffilm ac edrych ar y cwestiynau ymlaen llaw.

Cyfarpar

- Mae modd lawr-lwytho'r ffilm o'r We i'ch cyfrifiadur neu ddefnyddio'r ddisg yn eich peiriant DVD.
- Gyda grŵp yn fwy, gallech ddefnyddio cyfrifiadur, taflunydd a sgrin.
- Cofiwch wneud yn siŵr ymlaen llaw bod popeth yn gweithio!

Casglu pobl ynghyd i greu grŵp

- Gweddïwch am lwyddiant y cynllun a thros y bobl fydd yn dod – bod pawb yn mwynhau a gobeithio yn dysgu rhywbeth newydd!
- Cyflwynwch y syniad i'r aelodau a ffrindiau eraill, a nodwch pwy sy'n dangos diddordeb a phryd maen nhw'n rhydd i ddod.
- Dewiswch ddydd ac amser sy'n addas i'r mwyafrif.
- Penderfynwch a oes digon o bobl i gyfiawnhau mwy nag un grŵp (yn ddelfrydol dylai grŵp fod rhwng 4 ac 8).

Lleoliad

- Gallai grŵp bach gyfarfod yng nghartrefi'r aelodau
- Os yw'r grŵp yn fwy e.e. y gynulleidfa, trefnwch gwrdd yn y festri neu neuadd i wylio'r ffilm a thrafod mewn grwpiau bach wedyn.

Dyddiadau

- Gan fod 4 sesiwn mewn uned bydd angen trefnu 4 dyddiad. Efallai byddai'n well trefnu'r dyddiad cyntaf yn unig i ddechrau, a threfnu'r gweddill ar ddiwedd y sesiwn honno.

Hysbysebu

- Os yw'r cyfarfod mewn man cyhoeddus, hysbyswch y sesiynau gyda phoster (ar gael i'w lawr lwytho o'r wefan) a/neu gyhoeddiad ar y Sul. Cofiwch hefyd am *Facebook* a *Twitter*.

Os yw'r cyfarfodydd mewn cartrefi, bydd angen gwahodd, a sicrhau bod pobl yn cadarnhau ymlaen llaw eu bod yn dod.